| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cabinet |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 22 Hydref 2024 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol / Pennaeth Cyllid ac Archwilio |
| **Awdur yr adroddiad** | Pennaeth Cyllid ac Archwilio |
| **Teitl** | Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Strategaeth a Chynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2025/26 – 2027/28. |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Strategaeth a Chynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2025/26 – 2027/28.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae'r adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am y

- strategaeth gyllidebol arfaethedig ar gyfer gosod y gyllideb ar gyfer 2025/26 fel y nodir yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC)
- rhagamcanion ariannol ar gyfer y cyfnod 3 blynedd 2025/26 i 2027/28 yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC).
- cynigion cynilo sy'n cael eu datblygu

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r SATC a'r CATC yn Atodiadau 1 a 3.

3.2. Bod y Cabinet yn ystyried cynigion arbedion cynnar ar gyfer gosod cyllideb 2025/26 fel nodir yn Atodiad 2.

3.3. Bod y Cabinet yn nodi'r gwaith parhaus i bennu cyllideb gytbwys yn 2025/26.

# 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae’r Cabinet wedi cytuno i gael diweddariadau rheolaidd o SATC a CATC 2025/26 – 2027/28 drwy gydol y flwyddyn. Ystyriwyd yr iteriad cyntaf gan y Cabinet yn Ebrill ac ystyriwyd yr ail iteriad yng Ngorffennaf. Mae’r ddau fersiwn o’r SATC a’r CATC wedi eu hystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a’r Pwyllgor Craffu Perfformiad. Cafodd adborth (iteriad 1) gan y ddau bwyllgor hyn ei grynhoi yn adroddiad mis Gorffennaf, ac ni chynigiwyd unrhyw adborth pellach o iteriad 2.

## Strategaeth a Chynllun Ariannol Tymor Canolig 2025/26 – 2027/28 – Atodiadau 1, 2 a 3

4.2. Mae Atodiad 1 yn nodi’r rhagamcanion cyllideb cyfredol ar gyfer 2025/26 – 2027/28 ynghyd â’r tybiaethau sy’n sail i’r rhagamcanion. Wrth i ni symud yn nes at osod ein cyllideb ar gyfer 2025/26 mae pwysau cost wedi eu hadnewyddu i adlewyrchu gwybodaeth gyfredol sydd ar gael yn y CATC. Mae'r tabl yn parhau i gynnwys ystod o ragdybiaethau i ddarparu amcangyfrifon isel, canolig ac uchel o gostau ar gyfer pob pwysau, gan ddangos ansicrwydd y ffigurau a’r gwaith parhaus i barhau i adnewyddu a mireinio’r rhagamcanion hyn dros y misoedd nesaf. Mae effaith y cynnydd a amcangyfrifir yn Nhreth y Cyngor a chyllid gan Lywodraeth Cymru hefyd wedi ei gynnwys yn y CATC.

4.3. Atodiad 3 yw’r SATC sy’n nodi dull strategol y Cyngor o reoli ei gyllid ac yn amlinellu rhai o’r problemau ariannol a fydd yn wynebu’r Cyngor dros y tair blynedd nesaf.

4.4. Dyma drydydd iteriad y dogfennau hyn ac mae wedi’i lunio gyda’r data a’r wybodaeth oedd ar gael ar ddechrau mis Hydref 2024. Bydd y dogfennau hyn yn parhau i gael eu diweddaru fel nodir yn y SATC wrth i’r Cyngor baratoi i osod ei gyllideb ar gyfer 2025/26 yn Chwefror 2025.

4.5. Mae'r Cyngor wedi wynebu her ariannol sylweddol wrth bennu ei gyllideb ar gyfer 2024/25, a fydd yn parhau yn y tymor canolig. Mae hyn oherwydd cyfuniad o ddiffyg cynnydd mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru (rhagdybiaeth weithredol), effaith barhaus chwyddiant a chynnydd yn y galw am wasanaethau, yn ogystal â chymhlethdod yr angen amdanynt. Ni ddylid diystyru maint yr her ariannol sy'n wynebu'r Cyngor. Y pwyntiau allweddol yw:

- Mae'n anodd rhagweld y pwysau ond ar hyn o bryd maent yn amrywio o £12 miliwn i £26 miliwn yn 2025/26 gydag ystod ganolig o £18 miliwn. Rhagwelir ystodau tebyg ar gyfer 2026/27 a 2027/28.
- Ni roddodd setliad cyllid 2024/25 gan Lywodraeth Cymru unrhyw arwydd o gyllid yn y dyfodol fel y mae wedi'i wneud yn y blynyddoedd diwethaf. Mae cyllid yn y dyfodol o fewn y CATC yn seiliedig ar asesiadau gan Ddadansoddi Cyllid Cymru, gyda gostyngiadau ychydig yn negyddol yn absenoldeb unrhyw beth arall.
- Mae'r rhagdybiaethau a wneir ynghylch codiadau Treth y Cyngor yn amrywio o 6% - 12% ar gyfer 2025/26 a chyfartaledd hirdymor o 5.5% wedi hynny ar gyfer y ddwy flynedd. Mae'n bwysig nodi nad oes unrhyw benderfyniad wedi ei wneud eto. Mae rhagdybiaeth ganolig o gynnydd yn Nhreth y Cyngor o 9% ar gyfer 2025/26 yn rhoi £6.8 miliwn ychwanegol. Fodd bynnag, dim ond mynd i'r afael â thraean o'r bwlch ariannu y mae hyn, mae'r bwlch sy'n weddill yn sylweddol ar £12 miliwn. Bydd trafodaethau aelodau o ran lefel Treth y Cyngor yn cael eu cynnal yn yr hydref.

4.6. Mae newidiadau a wnaed i'r SATC wedi'u nodi'n felyn yn Atodiad 3 er hwylustod y Cabinet ac wedi'u crynhoi isod;

- Mae pwysau ar y gyllideb wedi eu diweddaru i gynnwys y rhagolygon diweddaraf.
- Risgiau – diweddariadau ar ddyfarniadau cyflog
- Mae'r adran ffioedd a thaliadau wedi ei diweddaru ynghyd â'r adran gyfalaf.

4.7. Fel nodir yn y SATC bydd angen i'r dull o osod cyllidebau cytbwys dros y blynyddoedd nesaf adnabod arbedion a buddsoddi mewn prosiectau trawsnewidiol. O ran arbedion 2025/26, mae gostyngiadau gwasanaeth canran targed wedi eu cyflwyno ac mae'r gwasanaethau wedi bod yn gweithio tuag atynt ochr yn ochr ag ystyried yr effaith ar ddarparu gwasanaeth o ganlyniad. Wedi'u gynnwys yn Atodiad 2 i'w hystyried gan y Cabinet mae cynigion arbedion cynnar y mae Penaethiaid Gwasanaeth yn eu hystyried wedi'w datblygu digon i'w cyflwyno rwan i'w hystyried. Mae hyn yn rhoi lefel o sicrwydd bod cynnydd yn cael ei wneud i bawb.

4.8. Er bod arbedion sylweddol wedi'u datblygu hyd yma yn Atodiad 2, nid yw'r rhain yn ddigonol ar eu pennau eu hunain i bontio'r bwlch cyllido fel y mae. Mae llawer o

ansicrwydd ar hyn o bryd a allai newid maint y bwlch, er enghraifft efallai y bydd angen newid tybiaethau cyflogau, efallai y bydd cyllid gan Lywodraeth Cymru yn newid. Mae pob Pennaeth Gwasanaeth yn parhau i ddatblygu cynigion arbedion pellach y bydd angen eu hystyried ochr yn ochr â'r holl opsiynau eraill sydd ar gael i osod cyllideb gytbwys gan gynnwys penderfyniadau ynghylch Cyllidebau Ysgolion a'r Dreth Gyngor wrth i'r Cyngor agosáu at bennu ei gyllideb ar gyfer 2025/26.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Mae rheoli cyllidebau’r Cyngor yn effeithiol a chyflawni’r strategaeth gyllidebol a gytunwyd arni yn gosod y sail ar gyfer gweithgarwch ym mhob maes. Mae’r cynigion hyn yn cynnwys dyraniadau i ddal i gefnogi blaenoriaethau corfforaethol a gwasanaeth.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Fel y nodir yn yr adroddiadau cyllideb hyd yma ar gyfer 2025/26. Bydd goblygiadau ariannol a goblygiadau eraill ar gyfer cyllidebau yn y dyfodol yn dod yn gliriach wrth i ni symud strategaeth y gyllideb yn ei blaen.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Cwblhawyd Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer pob cynnig arbedion mawr wrth bennu cyllideb 2024/25. Cafodd pob asesiad eu casglu a’u hadolygu gan swyddogion cynllunio strategol a pherfformiad. Bydd hyn yn amlygu unrhyw themâu a phatrymau sy’n dod i’r amlwg ac yn rhoi diweddariadau rheolaidd ar yr effaith gyfanredol mewn perthynas â phob un o’r nodau lles. Bydd hefyd yn edrych ar p’un a oedd yr arbedion yn effeithio’n anghymesur ar unrhyw grŵp gwarchodedig penodol. Cafodd y rhain eu casglu i ffurfio Asesiad o Effaith ar Les cyffredinol o’r mesurau gostyngiad cyfunol yn y gyllideb. Diweddarwyd hyn trwy gydol 2024/25.

7.2. Caiff proses debyg ei rhoi ar waith wrth bennu cyllideb 2025/26.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae Cynllun Cyfathrebu wedi'i ddatblygu ar gyfer y gyllideb er mwyn sicrhau yr ymgynghorir â'r grwpiau canlynol ar yr adegau priodol: Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Tîm Arwain Strategol, y Cabinet, Arweinwyr Grŵp, holl Aelodau'r Cyngor, y Fforwm Cyllidebau Ysgolion, Undebau Llafur, ein gweithwyr, busnesau lleol a'n trigolion.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae'r Cyngor, ynghyd â chynghorau eraill yng Nghymru yn wynebu heriau ariannol digynsail. Nod y SATC yw sicrhau bod y Cyngor yn cyflwyno cyllidebau cytbwys yn y dyfodol. Bydd nodi'r rhagamcanion a'r strategaeth yn yr adroddiad hwn yn helpu i sicrhau bod y Cyngor yn meddu ar wybodaeth gyflawn ac yn barod i bennu cyllideb yn ystod y cyfnod heriol hwn.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae'r broses gyllidebol ynddi ei hun yn ddull o reoli risg, gyda'r nod o nodi cynigion ar gyfer y gyllideb, eu hasesu a'u cymeradwyo mewn ffordd drefnus a phrydlon. Byddai methu â chytuno ar y cynigion hyn heb gynnig cynigion posibl eraill, yn peryglu cyflawni cyllideb gytbwys ar gyfer 2025/26.

10.2. Mae adran fanwl ar risg wedi'i chynnwys yn y SATC yn Atodiad 3.

10.3. Fel yr amlygwyd yn flaenorol, mae risgiau o ran capasiti'r tîm Cyllid y mae angen i Aelodau fod yn ymwybodol ohonynt. Cyflwynwyd system ariannol newydd i'w defnyddio o 1 Ebrill. Wrth gyflwyno unrhyw system newydd bu rhywfaint o darfu o ganlyniad gyda thimau yn gorfod gweithio i ganfod atebion i'r problemau hyn.

10.4. Dros amser mae'r Cyngor wedi datblygu ffordd awtomataidd effeithlon o gynhyrchu'r diweddariad cyllid misol i'r Cabinet yn gyflym. Fel arfer mae'r adroddiadau misol hyn yn weithredol erbyn mis Mehefin mewn unrhyw flwyddyn ariannol newydd. Bydd datblygu monitro cyllideb yn awtomataidd o'r system newydd, yn digwydd dros yr haf ac ni fydd yn weithredol tan fis Medi. Tra bod cynnydd da wedi ei wneud, mae'n parhau i gael ei ddatblygu ar hyn o bryd sy'n

risg i’r Cyngor.  Er mwyn lliniaru’r risg, mae’r tîm cyllid yn adolygu’r cyllidebau â llaw, gan ganolbwyntio ar feysydd risg uchel, i ddiweddaru’r Cabinet ar feysydd lle mae risg sylweddol o orwariant ac maent wedi gweithio gyda’r holl Benaethiaid Gwasanaeth i ddiweddaru’r traciwr arbedion.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae’n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.